




Astudiaeth achos 2: Taflu goleuni ar gwmni o'r brifddinas gyda chymorth recriwtiaid Twf Swyddi Cymru

Cwmni sy'n darparu atebion technegol, sain ac arddangos cymhleth a gwasanaethau cynhyrchu digwyddiadau ar hyd a lled Ewrop yw [Cleartech Live](#), ac mae'r staff a recriwtiwyd drwy raglen Twf Swyddi Cymru Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad allweddol i ddyfodol y cwmni.



CLEARTECH

live
Creative Events

Mae Twf Swyddi Cymru yn caniatáu i gyflogwyr gynnig cyfle gwaith wedi'i ran-ariannu am chwe mis i bobl ifanc, a chreu rolau newydd o fewn eu sefydliad. Mae'r rhaglen wedi'i hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn cael cyflog ac yn elwa ar brofiad gwaith hanfodol a datblygu sgiliau wrth weithio, yn ogystal â helpu busnesau Cymreig i ffynnu.

Meddai Colin Voisey, cyfarwyddwr a chadeirydd Cleartech Live: "Mae Twf Swyddi Cymru wedi bod o gymorth mawr i'n cwmni ni; heb y bobl a gafodd eu recriwtio drwy'r rhaglen, fydden ni ddim wedi datblygu mor gyflym.

"Mae gennym ni dîm o saith technegydd, ac mae tri ohonyn nhw wedi dod o'r rhaglen wych hon. Maen nhw'n hynod o fedrus ac yn enghraifft berffaith o dechnegwyr ymroddgar o safon. Maen nhw wedi rhagori ar ein disgwyliadau ers ymuno â'n tîm.

"Mae'n cleientiaid yn hollbwysig i ni ac maen nhw wedi gwneud gwyर्थiau o ran cysylltiadau â chleientiaid – mae'n rhyfeddol pa mor bell maen nhw wedi datblygu.

"Byddwn i'n bendant yn argymhell Twf Swyddi Cymru i fusnesau eraill, ac rydw i eisoes wedi gwneud hynny. Argymhellais nhw i'n cymdogion ni, sydd wedi cyflogi aelod parhaol o'r staff bellach drwy'r rhaglen, ac sy'n hapus dros ben gyda chymorth Twf Swyddi Cymru.

Trwy'r darparwr addysgu Educ8 y daeth Cleartech Live ar draws y rhaglen am y tro cyntaf, ac mae'r cwmni wedi derbyn tri thechnegydd llawn amser ar ddiwedd y cyfnod 6 mis cychwynnol.

Ymunodd Scott Duncan â'r tîm ym mis Tachwedd 2014, a fe yw'r technegydd arweiniol erbyn hyn: "Dw i'n aelod o'r cwmni ers bron i dair mlynedd erbyn hyn, ac mae'n saff dweud taw dyma'r swydd orau yn y byd. Dw i wedi dysgu cymaint ac yn cael cyfle i deithio ymhell ac agos.

"Ar ôl gadael y brifysgol, bues i'n gweithio mewn sinema am sbel, a dechreuodd pobl argymhell Twf Swyddi Cymru i mi. Mae'n cynnig cyfleoedd gwych, a byddwn ni'n ei argymhell 100% i eraill.

"Dyma'r llwyfan perffaith sy'n creu cyfleoedd go iawn i bobl fel fi sydd angen y cyfle cyntaf hwnnw."

Meddai Julie James, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth: "Mae Twf Swyddi Cymru yn gyfle delfrydol i bobl ifanc 16-24 oed abl, awyddus a pharod i weithio i roi sbardun i'w gyrfa ac ennill sgiliau a phrofiad gwerthfawr yn y gweithle. Ein nod yw gofalu bod pawb sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael.

"Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i gyflenwi mwy o swyddi gwell i'n gwlad, trwy gyfrwng economi cryfach a thecach, ac mae Twf Swyddi Cymru yn galluogi busnesau fel Cleartech Live i dyfu, sy'n newyddion da i economi Cymru'n ehangach. Ar yr un pryd, mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc fel Josh gamu i fyd gwaith a dangos eu potensial aruthrol."

Er mwyn manteisio ar Twf Swyddi Cymru, rhaid i bobl ifanc 16 ac 17 oed fynd i swyddfa Gyrfa Cymru, a dylai rhai 18-24 oed gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith.

I gael rhagor o wybodaeth am raglen Twf Swyddi Cymru a'r cyfleoedd diweddaraf, ewch i www.gyrfacymru.com, dilynwch [@jobsgrowthwales](https://twitter.com/jobsgrowthwales) ar Twitter neu chwiliwch am [TwfSwyddiCymru](https://www.facebook.com/TwfSwyddiCymru) ar Facebook. Gall cyflogwyr ddysgu mwy a mynegi diddordeb trwy fynd i www.busnescymru.llyw.cymru/porthsgiliau.